Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS A PHRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

ARCHWILIAD O GYFRIFON 2017/18
HYSBYSIAD O ARDYSTIO CWBLHAU'R ARCHWILIAD

RHODDIR RHYBUDD CYHOEDDUS TRWY HYN bod yr Archwilydd Annibynnol wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 yn unol â Rheoliad 13 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Cyhoeddodd yr Archwilydd y dystysgrif archwilio a barn ddiamod ar y cyfrifon ar 30 Gorffennaf 2018.

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd yr Archwilydd gasgliadau diamod ar drefniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabl ar gyfer sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn eu defnydd o adnoddau yn unol â gofynion Deddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014 (y 'Ddeddf'), a Chod Ymarfer Archwilio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chanllawiau ategol.

Gall unrhyw etholwr llywodraeth leol â diddordeb wneud cais am gopi o'r cyfrifon drwy ysgrifennu at y Prif Swyddog Ariannol yn y cyfeiriad isod, neu drwy eu darllen neu eu lawrlwytho o wefan CHTh , http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/6430/2017-18-datganiad-o-gyfrifon-comisiynydd.pdf

neu wefan Heddlu Dyfed-Powys, https://www.dyfed-powys.police.uk/media/6425/datganiad-cyfrifon-y-prif-gwnstabl-2017-18.pdf . Fel arall, gellir darllen copïau o'r cyfrifon rhwng 10y.b. a 4y.h., drwy apwyntiad, yn y cyfeiriad isod. Mae Adran 25 o'r Ddeddf yn rhoi'r hawl hwn i etholwyr llywodraeth leol.

Dyddiad 5 Rhagfyr 2018 Beverley Peatling

Prif Swyddog Ariannol
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF